BBC Bitesize

# CA3 Cymraeg – Deialog stori fer

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

Cofia mai dy ddehongliad di o'r testun sy'n bwysig, ond dyma atebion posibl.

| | |
|---|---|
| *bloeddiodd* | Mae'n dangos ei fod yn frwdfrydig. Efallai hefyd fod ganddo lais uchel, sy'n cario ymhell. |
| *llamu ar y cae* | Mae'n symud yn sydyn, gyda phwrpas ac wedi cyffroi, o bosib. |
| *gyda'i goesau hirion* | Mae'n dal ac mae ganddo goesau hir. Mae denu sylw atynt yn dangos bod ei goesau'n rhywbeth rydych yn sylwi arnynt. |
| *mor frwdfrydig* | Mae'n llawn bywyd, gyda diddordeb yn y tîm a'i lwyddiant. |
| *edrycha'n debyg i ebol* | Mae ebol newydd ei eni'n simsan ar ei draed, nid yw'n sefyll yn gadarn. Mae'r disgrifiad yma'n rhoi'r argraff nad yw Mr Ifans yn rhedeg mewn llinell syth ac nad yw'n edrych yn saff ar ei draed. |
| *osgo heglog a'i wallt hir* | Mae gan Mr Ifans wallt a choesau hir. Mae defnyddio 'heglog' i'w ddisgrifio'n rhoi'r argraff ei fod yn 'goesau i gyd' wrth redeg, a bod y cyfuniad yma o wallt a choesau hir yn gwneud iddo sefyll allan ar y cae ac, o bosib, ei fod yn edrych ychydig yn ddoniol. |


© BBC